**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion o gyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 18fed Gorffennaf 2011 yn Llywodraeth y Cynulliad Sarn Mynach, Cyffordd Llandudno. Dechreuodd y cyfarfod am 1.30pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd S Frobisher (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd A M Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd L W Davies | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd P Jeffares | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd J V Owen | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cynghorydd T Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Y Cynghorydd W P Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cynghorydd J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd M Thomas | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); P Claydon, C Hanks a R Simmons (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); A Jones (Swyddog Monitro); G Griffiths (Uwch Reolwr Diogelwch Tân); G Brandrick (Uwch Reolwr Gweithrediadau); R Fairhead (Uwch Reolwr Datblygu); L Roberts (Rheolwr yr Ystafell Reoli); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebiadau Cyhoeddus); S Teal-Bromley (Rheolwr Cefnogi'r Ochr Weithredol); C Dingle (Rheolwr Cyllid); S Forrest (Prif Gyfrifydd - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd B Dunn | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd G C Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd G James | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cynghorydd W T Owen | Cyngor Gwynedd |
| D Docx | Dirprwy Brif Swyddog Tân |

1 RHYBUDD O FATERION BRYS

1.1 Nid oedd unrhyw eitemau brys wedi eu cyflwyno i'r Cadeirydd na'r Clerc i'w hystyried.

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Dim.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 9FED O FAI 2011

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9fed o Fai eu cymeradwyo'n gofnod cywir, yn ddibynnol ar newid 7.8 yn fersiwn Gymraeg y cofnodion.

4 MATERION YN CODI

4.1 Cadarnhawyd bod ymateb i ymgynghoriad Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cynulliad ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub 2011-2016 wedi ei gyflwyno.

5 MATERION Y GYLLIDEB

5.1 Rhoddodd y Prif Swyddog Tân y diweddaraf am faterion y gyllideb, ac atgoffodd yr Aelodau am yr angen i arbed £2.4 miliwn dros dair blynedd. Roedd yr £800,000 o arbediad angenrheidiol yn y flwyddyn gyntaf o fewn cyrraedd y nod, a hynny trwy weithredu'r strwythur newydd ar gyfer swyddogion. O ran yr arbedion yr oedd eu hangen ym mlynyddoedd 2 a 3, roedd Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwahanol opsiynau fel y cyflwynwyd hwy i'r Aelodau yn Llyfryn Opsiynau'r Gyllideb. Caiff cynigion y Gweithgor eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol ym mis Medi, gyda chynigion ffurfiol yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod o'r Awdurdod llawn ym mis Hydref er mwyn gallu ymgorffori'r penderfyniad yn y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2012/13.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r diweddaraf, ac y bydd cynigion yn cael eu cyflwyno i'r Panel Gweithredol ym mis Medi.**

6 MONITRO PERFFORMIAD

6.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i roi gwybod i'r Aelodau am berfformiad a gweithgarwch Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2010-11; nodwyd nad oedd y ffigyrau wedi eu harchwilio eto. Aethpwyd â'r Aelodau trwy'r adroddiad gan y Rheolwr Cynllunio Corfforaethol.

6.2 Er bod cyfanswm nifer y galwadau a dderbyniwyd wedi cynyddu 2%, bu gostyngiad o 3% yn nifer y galwadau yr oedd y Gwasanaeth wedi troi allan atynt.

6.3 Bu gostyngiad bychan o 2% yng nghyfanswm nifer y tanau yr aethpwyd atynt, ond cynnydd yn y tanau eilaidd. Hefyd, bu gostyngiad o 7% yn y tanau bwriadol. Da oedd nodi bod larwm mwg, a hwnnw'n gweithio, yn 61% o'r cartrefi lle'r oedd tân wedi digwydd, o'i gymharu â 52% yn y flwyddyn flaenorol.

6.4 Bu 10% o ostyngiad yn nifer y digwyddiadau gwasanaeth brys arbennig, gyda gwrthdrawiadau ar y ffyrdd yn ddim ond hanner y galwadau gwasanaeth arbennig.

6.5 Roedd gostyngiad yn y galwadau maleisus yr aethpwyd atynt, a hynny oherwydd bod staff yr ystafell reoli yn croesholi galwyr, a hefyd oherwydd rhannu cyfleusterau gydag ystafell reoli'r heddlu, ac felly roedd ganddynt fynediad at systemau mwy technolegol. Llongyfarchwyd y staff gan yr

Aelodau am allu adnabod galwyr maleisus, ac am eu gallu i ddadansoddi'r galwadau'n llwyddiannus.

6.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad monitro perfformiad am y cyfnod Ebrill 2010-Mawrth 2011.**

7 SIGARÉTS SY'N DDIOGEL RHAG TÂN

7.1 Rhoddodd yr Uwch Reolwr Diogelwch Tân wybod i'r aelodau bod safon sy'n cydymffurfio â rheoliadau Ewropeaidd, o'r enw 'sigaréts sy'n ddiogel rhag tân' yn mynd i gael ei gyflwyno ym mis Tachwedd 2011.

7.2 Roedd Adroddiad Grŵp Gorchwyl Prif Swyddog Tân 2007 wedi amlygu bod dros 40% o danau mewn cartrefi yn cael eu priodoli i bethau ysmygu, ac felly roedd dyfodiad y sigaréts diogel rhag tân yn beth i'w groesawu. Fodd bynnag, bydd sigaréts anghyfreithlon, na fydd o bosib yn cwrdd â'r Safon, yn dal i fod yn broblem, a bydd yn cymryd amser i'r Safon newydd gael yr effaith a ddymunir.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi y bydd y sigaréts diogel rhag tân yn cael eu cyflwyno ym mis Tachwedd 2011.**

8 ASESIAD GWELLA: YN CYNNWYS Y DIWEDDARAF AM YR ASESIAD CORFFORAETHOL

8.1 Croesawyd Alan Morris o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod i gyflwyno'r llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a oedd yn nodi'r gwaith angenrheidiol a wnaed dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Roedd y llythyr yn gadarnhaol ar y cyfan, ac yn datgan bod yr Awdurdod 'yn cyflawni ei ddyletswyddau dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, ac yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion yn ystod y flwyddyn ariannol.'

8.2 Yn dilyn adroddiad cynhwysfawr cychwynnol yn y flwyddyn gyntaf, esboniodd Mr Morris mai cyffyrddiad ysgafn a wneir yn y dyfodol, ac adroddiadau cynhwysfawr dim ond yn cael eu gwneud os oes pryderon gan Swyddfa Archwilio Cymru.

8.3 Mae materion sy'n ymddangos ac a fydd yn cael eu hystyried yn ystod y flwyddyn yn cynnwys adolygu pa mor dda y mae'r Awdurdod yn defnyddio TGCh i gefnogi gwelliannau, a sut mae'r gweithgarwch rheoli pobl yn cefnogi gwelliannau. Hefyd, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn monitro datblygiad strategaeth ariannol yr Awdurdod.

8.4 O ran perthynas â'r cyhoedd, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda chyrff cyhoeddus i rannu arferion da ynglŷn â sut i drosglwyddo gwasanaethau i'r cyhoedd. Cynhelir gweithdai yn nes ymlaen yn y flwyddyn i gynorthwyo Awdurdod i osod amcanion a monitro'r modd y cyflawnir o'i gymharu â thargedau.

8.5 Diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r swyddogion a fu'n cydweithredu gyda Swyddfa Archwilio Cymru, ac roedd yn falch o weld adroddiad a oedd yn rhoi hyder

i'r Awdurdod ynglŷn â'r ffordd y mae'n ymdrin â materion, ac roedd yn teimlo bod yr adroddiad yn gyfeirbwynt da i'r Awdurdod.

8.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cynnwys y llythyr.**

RHAN II

9 PROSIECT TÂN AC AMBIWLANS WRECSAM

9.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Hanks, ac roedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am ddatblygiad arfaethedig yr orsaf dân ac ambiwlans ar y cyd yn Wrecsam.

9.2 Roedd manylion am yr unig safle sydd ar gael wedi cael eu cyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin. Disgwylid adroddiad prisio'r tir ddiwedd mis Gorffennaf, ac roedd y swyddogion wedi ceisio, ac wedi derbyn, sicrwydd na fyddai'r gost i'r Awdurdod yn uwch na'r £5m a oedd wedi ei gapio.

9.3 Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am eu gwaith caled ac am eu dyfalbarhad mewn perthynas â'r prosiect, a **PHENDERFYNWYD nodi**

**(i) bod yr adroddiad costau a ddaeth gan Bartneriaid Cadwyn Cyflenwad y prosiect yn cadarnhau y gellir cyflawni'r prosiect o fewn y gyllideb a neilltuwyd;**

**(ii) bod trafodaethau ynglŷn â phrynu'r tir yn mynd rhagddynt, ac yn ddibynnol ar adroddiad y Prisiwr Dosbarth;**

**(iii) y bydd y Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn pwyso ar swyddogion a gweinidogion Llywodraeth Cymru am benderfyniad cynnar ar yr 'Achos Busnes Terfynol' wedi iddo gael ei gyflwyno, a hynny er mwyn galluogi'r prosiect i fynd yn ei flaen mewn pryd.**